

LLYWELYN GOCH Y DANT (fl. 1470-1), bardd

Enw: Llywelyn Goch Y Dant
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Evan David Jones

a gysylltir yn arbennig â Sir Forgannwg. Cymerodd blaidd beirdd Tir Iarll yn yr ymryson a gododd oddi ar farwnad [Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys](#) i [Ieuan ap Hywel Swrdwal](#) tua 1470, ac yn ei gywydd yn y gyfres hon ('Mae yn y tir myn y tân') enwa wyth o feirdd cyfoes, a'i gyfrif ef ei hun, ym Morgannwg. Canodd foliant [Syr Rhoser Fychan](#), Tre T r (' Syr Rhoser piler pob haelioni ') pan oedd hwnnw yn ei anterth, a'i farwnad ('Torrodd fraint cywraint ceirydd') pan ddienyddiwyd ef gan [Siaspar Tudur, Iarll Penfro](#), yng Nghasgwent yn 1471. Cynnwys y farwnad ymosodiad ffyrnig ar [Siaspar](#). Canodd hefyd awdl ar fesurau go anghyffredin i fynachlog Nedd ('Naddwyd nid crefft anwedus'). A dyna'r cyfan o'i waith a gadwyd. Disgrifir ef mewn cywydd gan [Ieuan Du'r Bilwg](#) ('y nithwraig ar y noethwraidd') fel pencerdd a ' phen prydydd ar gywydd g r.' Awgryma [Lewis Glyn Cothi](#) mewn cywydd i Siôn ap Dafydd iddo dreulio llawer o'i amser yng Nghilfai (*Gwaith*, 108).

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

N.L.W. *Llawysgrif Gwysaney yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 38

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 37-8

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Llywelyn Goch y Dant](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18535792](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

